

Trwydded i ladd

Sut i gael trwydded ofynnol i ladd anifeiliaid mewn sefydliad cig.

Tystysgrif Cymhwysedd

Rhaid i unrhyw un sy'n cynnal gweithrediadau lladd penodol gael Tystysgrif Cymhwysedd, o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd.

[Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd \(Lloegr\) 2015 SI 1782](#)

[Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd \(Cymru\) 2014 SSI 951](#)

Tystysgrifau Cymhwysedd Dros Dro

Bydd hyn yn eich galluogi chi i weithio dan oruchwyliaeth deilydd Tystysgrif Cymhwysedd lawn ar gyfer y rhywogaeth a'r gweithrediadau rydych chi'n eu cynnal.

Rhaid darparu tystiolaeth gofrestru i'r Milfeddyg Swyddogol er mwyn i'r Dystysgrif Cymhwysedd Dros Dro gael ei chyhoeddi.

Mae'r dystysgrif hon yn ddilys am dri mis o'r dyddiad cyhoeddi. Mae'n rhaid i chi lwyddo mewn asesiad gan ddarparwr achrededig er mwyn derbyn tystysgrif cymhwyster.

Mae angen y dystysgrif hon arnoch chi er mwyn i Dystysgrif Cymhwysedd gael ei chyhoeddi.

Gallwch chi wneud cais ail-gyhoeddi'r dystysgrif dros dro am dri mis ar ôl i'r un blaenorol ddod i ben os na allwch chi gwblhau'r asesiad. Gallwch chi wneud hyn drwy'r Milfeddyg Swyddogol yn y lladd-dy.

Dim ond ar gyfer achosion eithriadol y caiff tystysgrif ei ail-gyhoeddi dros dro a bydd pob achos yn cael ei ystyried ar sail unigol. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan banel o dimau polisi lles anifeiliaid DEFRA a ni.

Byddwn ni a Llywodraeth Cymru yn barnu eich cais am ail-gyhoeddi tystysgrif.

Sut i wneud cais

Gallwch chi [wneud cais i gael tystysgrif cymhwysedd neu drwydded i ladd anifeiliaid](#) ar GOV.UK.

Mae'r dudalen hon yn rhoi gwybodaeth am y drwydded neu'r dystysgrif sydd ei hangen arnoch chi i ladd anifeiliaid, y gweithrediadau dan sylw, a'r broses ymgeisio.

Apeliadau yng Nghymru a Lloegr

Gellir apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed yng Nghymru a Lloegr i wrthod, atal neu ddiddymu Tystysgrif Cymhwysedd.

Mae'r system apelio yn rhoi hawl i chi gyflwyno sylwadau ysgrifenedig a mynd o flaen Tribiwnlys Haen Gyntaf y Siambr Reoleiddiol Gyffredinol.

I wneud hyn, mae angen i chi ddefnyddio ffurflen T98 y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'i hanfon o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad.

Mae angen i chi anfon y ffurflen apeliadau at:

- General Regulatory Chamber, HM Courts and Tribunals Service, PO Box 9300, Leicester, LE1 6ZX.

[View Application for a certificate of competence under welfare of animals at the time of killing. as Word \(388.5 KB\)](#)

[View Application for a temporary certificate of competence under the welfare of animals at the time of killing. as Word \(380 KB\)](#)

Wales

[View Application for a certificate of competence under the welfare of animals at the time of killing \(Wales\). as Word \(382.5 KB\)](#)

[View Cais i gael tystysgrif cymhwysedd dros dro o dan les anifeiliaid ar adeg lladd \(Cymru\) as Word \(225 KB\)](#)